



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg  
University Health Board

**Cynllun Bioamrywiaeth a  
Chydnerthedd Ecosystemau  
Cwm Taf Morgannwg  
2022 – 2025**



# Cyflwyniad

## Beth yw bioamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau?

Diffinnir bioamrywiaeth yn [Neddf yr Amgylchedd \(Cymru\)](#) (2016) fel “yr amrywiaeth o organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem. Mae bioamrywiaeth yn gyrru gweithrediad a chydnerthed ein hecosystemau”.

Mae [Cyfoeth Naturiol Cymru](#) (2016) wedi diffinio cydnerthed ecosystemau fel “gallu ecosystemau i ymdopi ag aflonyddwch, naill ai drwy ei wrthsefyll, gwella ar ei ôl, neu addasu iddo, wrth gadw eu gallu i gyflenwi gwasanaethau a buddion yn awr ac yn y dyfodol”

Mae ecosystem gydnerth yn un sy'n iach ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n gallu mynd i'r afael â'r pwysau a'r gofynion a roddir arni, ac sy'n gallu diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol presennol tra'n gallu darparu'r un buddion i genhedlaeth y dyfodol. Mae ein hecosystemau yn darparu ystod eang o wasanaethau a buddion i ni ac mae angen i ni ystyried y rhain i gyd pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau am sut rydym yn eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys ystyried eu gwerth cynhenid. Ecosystem gydnerth yw congylfaen nod “Cymru Gydnerth” yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (isod).


## Pam fod hyn yn bwysig i CTM?

Ar 30 Mehefin 2021, [datganodd y Senedd argyfwng natur](#), gan nodi'r angen am gydraddoldeb rhwng camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r rhai a gymerwyd i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth. Un o'r seneddau cyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng o'r fath, mae hyn yn cysylltu â datganiad [Argyfwng Hinsawdd](#) Llywodraeth Cymru yn 2019 ac yn cydnabod colli cynefinoedd amrywiol yn gyflym gan arwain at 17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.

Mae amgylchedd naturiol iach yn helpu cymdeithas a'r economi i ffynnu. Gall ein hadnoddau naturiol ac ecosystemau ein helpu mewn nifer o ffyrdd; i leihau achosion o lifogydd, gwella ansawdd yr aer ac i gynhyrchu deunyddiau adeiladu. Mae ein hadnoddau naturiol hefyd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, nid i sôn am y tirluniau hyfryd y mae ein safleoedd yn eistedd ynddynt sy'n annog ffyrdd iach a chyfforddus o drin cleifion, o weithio ac o ymweld.

Fel awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, mae gennym ddyletswydd o dan Ran 1, Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (y cyfeirir ati fel dyletswydd A6 drwy'r cynllun hwn) i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthed ein hecosystemau lleol a chenedlaethol, i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer ein swyddogaethau statudol yn briodol. Yn ei hanfod mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) gymryd agwedd ragweithiol i wella a pheidio â lleihau bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6, rhaid i ni ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau yn ein ffordd o feddwl a chynllunio busnes, gan gynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'n gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae rhan o gydymffurfiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi a chyhoeddi cynllun, naill ai fel dogfen annibynnol neu fel rhan o gynllun ehangach, a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu, ei fonitro a'i adrodd i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd. Trwy gyhoeddi ac adrodd, mae BIPCTM yn





atebol am weithredu dyletswydd a6 yn ogystal â helpu i gyfathrebu'n rhagweithiol â'n cleifion, cymunedau a rhanddeiliaid am yr angen i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd.

## Datblygu Cynllun CTM

Yn gysylltiedig â datgan argyfwng hinsawdd a natur, mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi fframwaith datblygu cynaliadwy cryfach a mwy cydlynol ar waith i Gymru drwy'r 7 nod llesiant, a 5 ffordd o weithio i gyflawni'r *Egwyddor Datblygu Cynaliadwy*. Mae'r *Egwyddor Datblygu Cynaliadwy* yn dweud wrthym fel corff cyhoeddus ut y dylem fynd ati i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef bod yn rhaid inni *"weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau"* (Rhan 2 'Gwella Llesiant, adran 5 'yr egwyddor datblygu cynaliadwy, paragraff (1)'). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r cyd-destun polisi ehangach y mae cynllun Datgarboneiddio'r GIG a'n Cynllun Datgarboneiddio CTM yn gweithredu ynddo, ac mae'r ddau ohonynt yn cysylltu â'r cynllun hwn ac yn ei lywio.

[Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 \(SoNaRR2020\)](#) gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlinellu lle'r ydym ni fel cenedl a lle mae angen inni fod â chanllawiau ar sut i 'gau'r bwllch' i hyrwyddo bioamrywiaeth ac annog cydnerthed ecosystemau. Mae gwybodaeth o'r adroddiad hwn yn rhoi cyd-destun ac arweiniad i gynllun CTM. Mae SoNaRR2020 yn ystyried sut rydym yn y sefyllfa orau i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) drwy 4 nod hirdymor:



Ffigur 1: Diagram SoNaRR2020 Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos y cysylltiadau a natur gylchol y pedwar nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

Mae'r buddion economaidd a chymdeithasol y gall amgylchedd cwbl weithredol eu darparu i gymdeithas ddynol yn cynnwys cynhyrchu amaethyddol, coedwigaeth, deunyddiau adeiladu, twristiaeth a hamdden, cynhyrchu ynni, atal llifogydd, gwasanaethau peillio ar gyfer cnydau, dŵr glân, aer glân a phriddoedd iach. Mae adroddiad SoNaRR2020 yn nodi'r prif fygythiadau sy'n wynebu gweithrediad priodol ecosystemau yng Nghymru, a fydd os

na chânt eu trin yn cyfrannu at ddirywiad pellach mewn bioamrywiaeth ac yn ein hatal rhag cael buddion economaidd a chymdeithasol llawn popeth y gall yr amgylchedd ei ddarparu. Mae'r bygythiadau mawr yn ogystal ag achosi niwed, hefyd yn achosi methiant i wireddu'r buddion llawn y gall ein hecosystem eu darparu. Mae bygythiadau yn cynnwys:

- Newid hinsawdd;
- Newid defnydd tir;
- Gorddefnyddio adnoddau naturiol;
- Gorfaethu a llygredd.

Mae angen i'r ffocws ar gyfer gweithredu fod lle mae cydnerthedd ecosystemau a'r buddion a gawn ohonynt yn y perygl mwyaf oherwydd rheolaeth anghynaliadwy. Nid dileu pob pwysau yw'r amcan, ond cynyddu ein dealltwriaeth a'u rheoli mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Cydnabod risgiau a chyfleoedd fel y gellir eu defnyddio er mwyn i genedlaethau'r dyfodol allu parhau i elwa ar bopeth y gall ecosystemau ei ddarparu, gan adael yr un amgylchedd i genedlaethau'r dyfodol, neu amgylchedd gwell yr ydym yn ei fwynhau heddiw.

[Mae dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a6](#) Llywodraeth Cymru a [Chynllun Gweithredu Adfer Natur](#) (NRAP) yn amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion allweddol y mae angen i'n cynllun bioamrywiaeth lleol eu dilyn. Rhaid inni geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau penodol a amlinellir yn ['rhestr Adran 7'](#) o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) ac y manylir arno ar safle [Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#). Mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir ar gyfer gweithredu ac ystyriaeth flaenoriaethol wedi'u nodi oherwydd lefel y bygythiad y maent yn ei wynebu ac a oes angen cymryd camau adferol i wella eu statws drwy weithgareddau cadwraeth.

Y 6 amcan yn [y Cynllun Gweithredu Adfer Natur](#) (NRAP) yw:

**Amcan 1:** Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

**Amcan 2:** Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

**Amcan 3:** Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

**Amcan 4:** Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

**Amcan 5:** Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro


**Amcan 6:** Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Gan gefnogi'r 6 amcan, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru y [Polisi Adnoddau Naturiol](#) sy'n helpu i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel genedlaethol a sut y gellir cyflawni'r rhain ar lefel leol. Y blaenoriaethau cenedlaethol yw:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur.
- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy
- Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le

# Cysylltu ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n lles.

Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mabwysiadu 'dull ecosystem' o reoli ein hadnoddau'n gynaliadwy tra'n hyrwyddo cadwraeth, gan gydnabod pwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.



Ffigur 2: Diagram o'r [Polisi Adnoddau Naturiol](#) yn dangos y rhyngweithio rhwng ein hamgylchedd ac iechyd a llesiant (2018)

Trwy weithio gyda phartneriaid lleol i gynyddu ac amrywio ein mannau gwyrdd, megis hyrwyddo coridorau gwyrdd a llwybrau teithio llesol diogel, byddwn yn dod â manteision cefnogi ein hiechyd meddwl a'n llesiant yn ogystal â chynnig mannau diogel i chwarae, ymarfer corff a chymdeithasu yn yr awyr agored. .

Galluogodd pandemig COVID-19 lawer o bobl leol i dreulio amser ym myd natur, rhai yn archwilio am y tro cyntaf eu hardal leol ac yn gwneud defnydd o'r ystod o draethau, coetiroedd a mannau gwyrdd sydd gan CTM i'w cynnig. I eraill, mae cyfyngiadau COVID-19 fel y cynnodau clo a gwarchod wedi cael effaith barhaol ar eu teimladau o ynysigrwydd cymdeithasol, gan leihau eu rhyngweithio â natur ac eraill. [Mae Asesiad CTM o Anghenion y Boblogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CTM \(2022-2027\)](#) yn dangos effaith barhaol ar ymdeimlad ein cymuned o gysylltedd, unigrwydd a hefyd lefelau gordewdra cynyddol y byddwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn rhannol drwy'r cynllun hwn ochr yn ochr â'n gwaith ehangach i ddatblygu ein strategaeth sefydliadol, [CTM2030 'Ein hiechyd, ein dyfodol'](#).

Bydd CTM2030 yn nodi sut rydym yn datblygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i ddiwallu anghenion ein poblogaeth wrth i ni edrych at 2030 a thu hwnt, a sut y gallwn weithio gyda'n cymunedau i sicrhau y gall pobl leol fyw bywydau hapusach ac iachach am gyhyd o amser ag y bo modd. Byddwn yn symud ein ffocws i hybu iechyd yn

ein cymunedau, gan atal afiechyd rhag digwydd yn hytrach na thrin pobl pan fyddant yn mynd yn sâl, tra'n sicrhau ein bod yn gallu darparu'r gofal gorau posibl pan fo pobl angen ein cefnogaeth. Rydym wedi nodi pedwar nod ar gyfer datblygu ein strategaeth sy'n amlinellu'r pethau allweddol rydym am eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf:

- Creu Iechyd
- Gwella Gofal
- Ysbrydoli pobl
- Cynnal ein Dyfodol

Mae nod Cynnal ein Dyfodol yn cydnabod y cysylltiad clir rhwng iechyd ein pobl ac iechyd y blaned. Drwy CTM2030 byddwn yn gofalu am y ddau, gan geisio sicrhau ymagwedd gynaliadwy at wasanaethau sy'n adferol yn amgylcheddol er mwyn gwella canlyniadau i'n cymunedau nawr ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu bod BIPCTM wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- Dod yn sefydliad gwyrdd
- Sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynaliadwy'n ariannol
- Gwreiddio gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth
- Sicrhau bod ein hystâd yn addas at y dyfodol

Mae bod yn wyrdd ac yn gynaliadwy ym mhopeth a wnawn yn hanfodol er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau fel sefydliad iechyd y boblogaeth. Mae hyn wrth wraidd ein penderfyniadau ar bob lefel. [Mae ein gwaith hyd yn hyn](#) i leihau allyriadau carbon eisoes yn effeithio ar yr agenda hwn ar draws meysydd clinigol ac anghlinigol, ac mae hyn i'w weld yn yr adran isod.

## Cynnydd Hyd Yma

Mae BIPCTM yn deall bod angen i ni gymryd camau priodol i atal neu leihau difrod tymheredd cynyddol a digwyddiadau tywydd eithafol ar draws ein hystâd, fel bod ein staff a'n cleifion yn ddiogel, ac y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau. Rydym wedi a byddwn yn parhau i sicrhau bod ein sefydliad cyfan yn barod i ymdrin ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn enwedig digwyddiadau tywydd eithafol, drwy fuddsoddi mewn bioamrywiaeth, ecosystemau ac ymaddasu i newid hinsawdd a mesurau lliniaru. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Ymgymryd ag ymchwil a phlannu coed a llwyni sy'n adlewyrchu'r newid a ragwelir yn yr hinsawdd, gweithio gyda Choedwigoedd y GIG i gynnal prosiectau plannu ar draws ein safleoedd, a phlannu perllan.
  - Yn 2022 cefnogodd ein rhwydwaith CTM Gwyrdd y gwaith o blannu 85 o goed ifanc ar draws 22 o'n safleoedd, yn gysylltiedig â [Chanopi Gwyrdd y Frenhines](#), gyda choed am ddim o goedwigoedd y GIG. Roedd staff yn gweithio gyda chleifion, partneriaid cymunedol a gwirfoddolwyr a oedd yn awyddus i'n helpu i greu mannau gwyrdd ar gyfer llesiant. Fel rhan o fenter Canopi'r Frenhines, gwnaethom ymuno â rhwydwaith '[Plannu coeden ar gyfer y Jiwbil](#)', i hyrwyddo ein hymrwymiad i gynaliadwyedd. Mae'r coed a ddarperir gan Goedwigoedd y GIG hefyd yn rhan o fenter arall ledled y DU a gydlynir gan y [Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy](#), sy'n anelu at wneud y mwyaf o fanteision arferion amgylcheddol ar gyfer iechyd a lles;
- Mae nifer o goed aeddfed wedi'u lleoli ar hyd tiroedd safleoedd y Bwrdd Iechyd, gyda choetiroedd gan gynnwys coed Castanwydden, Sycamorwydden, Cypreswydden, Helyg, Pisgwydden, Derwen a Llwyfen. Mae nifer fach o rywogaethau o ystumod lleiaf hefyd wedi'u nodi ar y safle yn yr ardaloedd coetir hyn.

- Mae Arolwg Coedyddiaeth ac Asesiadau Peryglon Coed wedi'u cynnal ynghylch cyflwr y coed mawr a ganfuwyd yn tyfu ar ein safleoedd. Mae gwywiad yr Onnen hefyd wedi'i nodi gan arwain at amserlen trin coed ar gyfer safleoedd yr effeithir arnynt.
- Yn gyffredinol, ond yn arbennig yn ystod pandemig Covid-19, mae wedi bod angen mannau awyr agored ar staff, ymwelwyr a chleifion i dynnu eu hunain o'r sefyllfaoedd dirdynol. Mae llwybrau hygyrch pwrpasol a seddau wedi'u rhoi ar waith i roi tirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi ar draws ein safleoedd, i annog cleifion, staff ac ymwelwyr i ymweld â'n safleoedd yn iach ac yn gyfforddus, ac i fwynhau defnyddio ein mannau awyr agored.
- Mae ein safleoedd yn gartref i amrywiaeth o fioamrywiaeth, sydd wedi cael ei annog ymhellach drwy welliant parhaus ein mannau gwyrdd dros gyfnod o sawl blwyddyn. Maen nhw'n lleoliad poblogaidd ar gyfer nifer o rywogaethau adar gan gynnwys Crehyrod, leir dwr, Cnocell y coed, Mulfrain, Colomennod a Glas y dorlan, yn ogystal ag afonydd cyfagos sy'n gartref i amrywiaeth o rywogaethau pysgod bras, sewin ac eogiaid.
  - Mae blychau adar wedi'u codi mewn lleoliadau addas ar draws ein safleoedd, yn ogystal â phentyrrau o gynefinoedd sydd wedi'u gadael mewn mannau priodol i ddarparu ffynonellau bwyd, cysgod a gaeafgysgu.
- Parhau i weithredu ardaloedd '*Dim Torri Gwair*' fel rhan o fanyleb y contractwr a Thiroedd a Gerddi mewnol, yn enwedig ar hyd ymylon gyda ffiniau troed ac ati i annog bywyd gwyllt a draeniad.
  - Mae gwenyn, gloŷnnod byw, a phryfed peillio eraill wedi'u denu i'n safleoedd drwy ddatblygu dolydd blodau gwyllt 'gadael iddynt dyfu'n rhydd' a thrwy blannu planhigion llysiuol. Yn dilyn cais llwyddiannus i Cadwch Gymru'n Daclus rydym wedi creu gardd pili pala.
- Sicrhau bod '*Gweithdrefn Tywydd Garw*' y sefydliad yn cael ei gweithredu ar draws y sefydliad.
- Gweithredu '*Cynllun Rheoli Tiroedd Ysbyty Glanrhyd*', a gyflwynir ar gyfer Gwobr y Faner Werdd yn flynyddol, cynllun sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo parciau a mannau gwyrdd a reolir yn dda, gan feincodi rheolaeth mannau awyr agored hamdden ar draws y Deyrnas Unedig.
- Cyfyngu ar gynnyrch sy'n cael ei brynu a'i ddefnyddio sy'n cynnwys mawn ar ein safleoedd lle bo modd.
- Cyfyngu ar y defnydd o blaladdwyr ar ein safleoedd lle bo modd, gydag isafswm crynodiadau o gemegau yn cael eu defnyddio i drin y rhywogaethau ymledol; chwistrellu yn cael ei wneud mewn rhai safleoedd yn gyfrifol gyda symiau a chrynodiadau wedi'u cofnodi a chynnal asesiadau risg ar gyfer crynodiadau chwistrellu sbotiau.
- Mae'r holl wastraff gwyrdd a gynhyrchir ar y safle o dasgau cynnal a chadw yn cael ei ailgylchu ar y safle lle bo modd.
- Mae'r tîm cyfathrebu'n gweithio'n agos gyda'r Gyfarwyddiaeth Cyfleusterau yn ogystal â Chyfarwyddiaethau perthnasol eraill i gyhoeddi mentrau a chynlluniau amgylcheddol a bioamrywiaeth i hyrwyddo ac annog arfer gorau a newid cadarnhaol.

Mae BIPCTM yn sicrhau bod risgiau sy'n ymwneud ag effaith y Bwrdd Iechyd ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn cael eu rheoli'n effeithiol yn y sefydliad, gyda'r mesurau uchod yn cael eu parhau a'u hehangu fel rhan o Gynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau BIPCTM.





# Symud Ymlaen

Rydym wedi adolygu arferion presennol CTM i nodi'r hyn a allai gael effaith negyddol ar Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a sut y gallwn sicrhau newid cadarnhaol. Wrth ymgynghori â'r Grŵp Llywio Rheoli Amgylcheddol (EMSG) a'r Uwch Reolwyr yn y Cyfarfod Busnes Corfforaethol (CBC) nodwyd: lle mae'r risgiau presennol i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau; cyfleoedd lle gellir lleihau neu ddileu risgiau; a chyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth ('risgiau a chyfleoedd') ac i hyrwyddo neu sicrhau cydnerthedd ecosystemau yn y tymor canolig a'r hirdymor.

Mae'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'r Risgiau a Chyfleoedd wedi'u cynnwys yn y Blaengynllun Bioamrywiaeth a amlinellir isod, a rhoddir manylion llawn yng nghynllun gweithredu bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau 2022-25 ar ddiwedd y ddogfen hon. Ar hyn o bryd, mae'r meysydd gwasanaeth canlynol yn cael eu hystyried yn feysydd lle gellir lleihau risgiau a lle gellir sicrhau enillion:

- Rheoli Adeiladu / Rheoli Datblygu
- Tiroedd a Gerddi
- Ystadau
- Gwasanaethau Cymdogaeth
- Addysg
- Gwastraff / Ailgylchu
- Teithio a Chludiant

Gan weithio gyda phob cyfarwyddiaeth, ar ôl nodi'r risgiau a'r cyfleoedd, byddwn yn datblygu set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol unigryw ar gyfer pob maes gwasanaeth. Bydd y rhain yn cael eu hintegreiddio i Gynlluniau Gwasanaeth ac yn cael eu hadrodd yn flynyddol fel rhan o Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol y Bwrdd Iechyd a dwywaith y flwyddyn i Lywodraeth Cymru fel rhan o'n hadroddiad ar y Strategaeth Datgarboneiddio.

# Ein Nodau Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

## Amcan 1 NRAP: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

- Sicrhau bod bioamrywiaeth, cadwraeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried yn ein holl brosiectau cynllunio a chaffael arfaethedig. Sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cael eu gweithredu.
- Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff o faterion bioamrywiaeth / cadwraeth / cydnerthedd ecosystemau.

## Amcan 2 NRAP: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

- Sicrhau bod staff y Bwrdd Iechyd, cleifion, ymwelwyr a chontractwyr yn cadw at ddeddfwriaeth, polisi, arfer gorau a chanllawiau cyfredol yn ymwneud â bioamrywiaeth.
- Parhau i reoli ardaloedd o werth uchel presennol a cheisio adfer cynefinoedd diraddiedig. Parhau i weithio gyda thrydydd partïon a datblygu perthnasoedd gwaith newydd i ddiogelu cynefinoedd a gwella rheolaeth ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd Prifysgol.
- Gweithio gyda thrydydd partïon a datblygu partneriaethau gwaith newydd i sicrhau adnoddau ar gyfer prosiectau gwella/cadwraeth bioamrywiaeth.

## Amcan 3 NRAP: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

- Chwilio am gyfleoedd i nodi cynefinoedd blaenoriaeth ac archwilio cyfleoedd ariannu i roi prosiectau adfer/rheoli ar waith.
- Chwilio am gyfleoedd i greu cynefinoedd / gwella bioamrywiaeth ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd.

## Amcan 4 NRAP: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

- Sicrhau bod bioamrywiaeth, cadwraeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ym mhrosiectau cynllunio a chaffael arfaethedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Sicrhau bod bioamrywiaeth, cadwraeth a chynaliadwyedd yn cael eu cynnwys a'u rheoli'n briodol o fewn System Rheoli Amgylcheddol y Bwrdd Iechyd ac ardystiad ISO14001 a'r Faner Werdd.

## Amcan 5 NRAP: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

- Casglu data sylfaenol lle bo angen i lywio camau gweithredu a thargedau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys casglu data mewn ffordd sy'n gydnaws â gofynion yr adroddiad SoNaRR.
- Gweithio gyda phartneriaid presennol a datblygu rhwydweithiau newydd i gasglu, coladu a dehongli data, gall sefydliadau gynnwys Llywodraeth Cymru, sefydliadau cyhoeddus eraill fel Byrddau Iechyd, awdurdodau lleol, cynghorau, ysgolion ac ati, y sector gwirfoddol, elusennau a busnesau.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid presennol a datblygu rhwydweithiau newydd i fonitro ffactorau allweddol. Defnyddio gwybodaeth a gafwyd i lywio penderfyniadau a pholisi yn y dyfodol.

## Amcan 6 NRAP: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

- Sicrhau bod yr holl bolisiau a strategaethau presennol a newydd yn cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth / cynaliadwyedd.
- Nodi safleoedd a meysydd gwasanaeth y Bwrdd Iechyd lle gall arferion a allai fod yn niweidiol ddigwydd a datblygu mecanweithiau i warchod a gwella lle bynnag y bo modd.

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022-2025

## Amcan 1 NRAP: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

Cod y prosiect	Mesur	Statws	Arweinydd	Canlyniadau a Cherrig Milltir	AMCAN ALLWEDDOL Amcanion NRAP	Egwyddor Datblygu Cynaliadwy				
						Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cymryd rhan
<b>B1.1</b>	<p><u>Mannau Tyfu</u> Presennol: Mae Adeiladau Newydd yn cael eu dylunio gyda bioamrywiaeth wedi'i hymgorffori yn y dyluniad; ac i'r cynigion gyrraedd sgôr BREEAM "rhagorol".</p> <p>Cynnig: ar ôl y broses gychwynnol, bydd ecolegydd yn cymryd rhan i asesu cynigion ar gyfer cadwraeth a gwella.</p>	Wedi dechrau	Cynllunio Cyfalaf, Strategol a Gweithredol	<p>I gyflawni cadwraeth bioamrywiaeth A gwella ar 100% o brosiectau newydd (ac eithrio contractau cynnal a chadw presennol - i'w hasesu fesul achos)</p> <p>Ecolegydd i fod yn rhan o ddyluniadau newydd (argymhellion ar gyfer bioamrywiaeth, cadwraeth, gwella).</p>	<p><b>1. Gwreiddio bioamrywiaeth</b></p> <p>3. Cynyddu cydnerthedd</p> <p>4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol</p> <p>5. Gwella dealltwriaeth</p> <p>6. Fframwaith cyflawni</p>	✓	✓	✓	✓	✓
<b>B1.2</b>	<p><u>Sgrinio bioamrywiaeth</u> Sgrinio pob prosiect adeiladu cyfalaf ar gyfer gwelliannau a risgiau bioamrywiaeth. Anelu at ddylunio unrhyw effeithiau andwyol a chynnwys gwelliannau i fioamrywiaeth.</p>	Wedi'i gynllunio	Cynllunio Cyfalaf, Strategol a Gweithredol	Bob blwyddyn: Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried cyn gynted â phosibl ar bob prosiect	<p><b>1. Gwreiddio bioamrywiaeth</b></p> <p>2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</p> <p>3. Cynyddu cydnerthedd</p> <p>4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol</p> <p>6. Fframwaith cyflawni</p>	✓	✓	✓	✓	x



<b>B1.3</b>	<u>Tir Di-denant</u> Cynyddu gwerth bioamrywiaeth tir di-denant trwy leihau'r drefn o dorri gwrychoedd	Wedi'i gynllunio	Tiroedd a Gerddi	Newid o dorri gwrychoedd ar dir di-denant i gylchdro bob 3 blynedd*  * Gydag eithriadau gan gynnwys diogelwch ffyrdd	1. <b>Gwreiddio bioamrywiaeth</b> 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 5. Gwella dealltwriaeth 6. Fframwaith cyflawni	x	x	✓	✓	✓
-------------	---	------------------	------------------	--	--	---	---	---	---	---

## Amcan 2 NRAP: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

Cod y prosiect	Mesur	Statws	ARWEINYDD	Canlyniadau a Cherrig Milltir	AMCAN ALLWEDDOL Amcanion NRAP	Egwyddor Datblygu Cynaliadwy				
						Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cymryd rhan
<b>B2.1</b>	<u>Coridorau tywyll ar gyfer bywyd gwyllt</u> Mae cynlluniau goleuo ar gyfer datblygiadau newydd yn cael eu dylunio mewn cydweithrediad ag ecolegwyr ymgynghorol, gan sicrhau bod pob datblygiad canolog a mawr newydd yn ymgorffori coridorau symud tywyll ar gyfer bywyd gwyllt.	Wedi'i gynllunio	Tîm Cynllunio Cyfalaf, Strategol a Gweithredol / Ynni	Mae Blwyddyn 1-3 yn parhau i weithredu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Fioamrywiaeth a chyflawni cynlluniau goleuo sensitif ar gyfer bywyd gwyllt	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 3. Cynyddu cydnherthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 6. Fframwaith cyflawni	✓	✓	✓	✓	x
<b>B2.2</b>	<u>Pyllau a phyllau dŵr tymhorol i fywyd gwyllt</u> Sicrhau bod pob pwll a basn gwanhau a grëir yn gyfeillgar i fywyd gwyllt	Parhaus	Tiroedd a Gerddi	Sicrhau bod pob pwll yn hyrwyddo, gwarchod a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys nodweddion fel ffordd o ddianc, rhywogaethau brodorol ac ati.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 3. Cynyddu cydnherthedd	✓	✓	✓	✓	x
<b>B2.3</b>	<u>Brain coesgoch</u> Parhau i weithio i reoli tiroedd safle BIPCTM er budd y frân coesgoch.	Wedi'i gynllunio	Tiroedd a Gerddi	Sicrhau bod pob safle'n cael ei reoli i hyrwyddo, gwarchod a gwella poblogaethau brain coesgoch. Asesu a ellir cynyddu / gwella ansawdd ardaloedd.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 3. Cynyddu cydnherthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 5. Gwella dealltwriaeth	✓	✓	✓	✓	✓

<b>B2.4</b>	<u>Cael Tystysgrif Dyfarniad Baner Werdd yn Ysbyty Glanrhyd</u>	Wedi dechrau	Adrannau Amrywiol	Cynhyrchu a gweithredu Cynllun Rheoli Baner Werdd Glanrhyd.	1. <b>Gwreiddio bioamrywiaeth</b> 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 5. Gwella dealltwriaeth 6. Cyflwyno fframwaith	✓	✓	✓	✓	✓
<b>B2.5</b>	<u>Ymgorffori Blaengynllun Bioamrywiaeth o fewn System Reoli Amgylcheddol BIPCTM</u>	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi / Tîm Cydymffurfiaeth / Tîm Technegol	Parhau i weithredu System Reoli Amgylcheddol BIPCTM a chynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol Bioamrywiaeth o fewn Dangosyddion Perfformiad Allweddol Amgylcheddol BIPCTM.	1. <b>Gwreiddio bioamrywiaeth</b> 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 5. Gwella dealltwriaeth 6. Cyflwyno fframwaith	✓	✓	✓	✓	✓
<b>B2.6</b>	<u>Rheoli Coetiroedd</u> Parhau i reoli coetir presennol o dan Reolaeth y Bwrdd Iechyd ar draws safleoedd BIPCTM ac ehangu ardaloedd coetir lle bo modd.	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi	Monitro a rheoli ardaloedd coetir yn holl safleoedd BIPCTM. Annog gwirfoddolwyr i gynnal arolygon bioamrywiaeth a digwyddiadau plannu lle bo'n bosibl er mwyn cynnal amrywiaeth strwythurol a rhywogaethau ac annog ymgysylltu â'r gymuned. BIPCTM i wella ansawdd aer drwy blannu coed yn, ac o amgylch adeiladau a safleoedd BIPCTM yn amodol ar argaeledd lle ar safleoedd.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 5. Gwella dealltwriaeth 6. Cyflwyno fframwaith	✓	✓	✓	✓	✓
<b>B2.7</b>	<u>Monitro Clefyd Coed Ynn</u> Nodi coed sydd mewn perygl o glefyd coed ynn a'u trin yn unol â'r canllawiau ym mhob un o safleoedd BIPCTM.	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi	Monitro a rheoli coed ynn yn holl safleoedd BIPCTM a chynllun trin yn eile.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol	✓	✓	✓	✓	x

					5. Gwella dealltwriaeth					
<b>B2.8</b>	<u>Portffolio / Cofrestr Gorchmynion Cadw Coed (TPOs) BIPCTM</u> Llunio rhestr / adnodd i nodi TPOs ar gyfer pob safle o fewn BIPCTM.	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi	Erbyn diwedd blwyddyn 3, cael Portffolio / Cofrestr TPO electronig ar gyfer holl safleoedd BIPCTM.	2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol	✓	✓	x	x	x
<b>B2.9</b>	<u>Cynnal Arolygon Bioamrywiaeth Manwl</u> Gellir defnyddio'r rhain i wella bioamrywiaeth.	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi / Tîm Cydymffurfiaeth	Erbyn diwedd blwyddyn 3, caffael cyllid a chynnal arolygon bioamrywiaeth o safleoedd allweddol BIPCTM a gweithredu unrhyw argymhellion.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol	✓	✓	✓	✓	✓
<b>B2.10</b>	<u>Mawn</u> Sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd o fawn, na chynhyrchion sy'n cael eu prynu a'u defnyddio sy'n cynnwys / wedi'u gwneud o fawn lle bo modd.	Wedi'i gynllunio	Tiroedd a Gerddi	Bob blwyddyn: Defnyddio compost heb fawn a dod o hyd i ddeunyddiau eraill. Defnyddio 0% o gynhyrchion mawn neu fawn lle bo modd.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol	✓	✓	✓	✓	x
<b>B2.11</b>	<u>Graean Amgen</u> Adolygu dewisiadau graeanu eraill i nodi math o raean nad yw'n niweidio bioamrywiaeth.	Wedi'i gynllunio	Tîm Technegol / Tiroedd a Gerddi	Blwyddyn 1: Adolygu mathau eraill o raen i nodi mathau nad ydynt yn niweidio bioamrywiaeth. Blwyddyn 2 a 3: Os yw'n ymarferol, defnyddio math arall o raen.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. <b>Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau</b> 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol	✓	✓	✓	✓	x

**Amcan 3 NRAP: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy**

## adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

Cod y prosiect	Mesur	Statws	ARWEINYDD	Canlyniadau a Cherrig Milltir	AMCAN ALLWEDDOL Amcanion NRAP	Egwyddor Datblygu Cynaliadwy				
						Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cymryd rhan
<b>B3.1</b>	Sicrhau a chynnyddu ardaloedd blodau gwyllt Cynnyddu arwynebedd neu wella ansawdd dolydd blodau gwyllt ar safleoedd BIPCTM. Trwy newid rheolaeth ar ardaloedd trosi addas a sicrhau rheolaeth orau ar safleoedd BIPCTM gyda chymorth grwpiau cadwraeth lle bo angen. Rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol ym mhob cynefin a reolir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.	Wedi'i gynllunio	Tiroedd a Gerddi	Rheoli safleoedd i gynnal rhywogaethau. Cynnyddu niferoedd rhywogaethau yn amodol ar adnoddau.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 3. <b>Cynnyddu cydnerthedd</b> 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 5. Gwella dealltwriaeth	✓	✓	✓	✓	x
<b>B3.2</b>	<u>Rheolaeth Gwelyau Cyrs Afonydd</u> Parhau i reoli cynefinoedd naturiol ar welyau cyrs afonydd o fewn safleoedd BIPCTM.	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi / y Cyngor / Cyfoeth Naturiol Cymru	Erbyn diwedd blwyddyn 3: Parhau i reoli ardaloedd presennol.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 3. <b>Cynnyddu cydnerthedd</b> 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 5. Gwella dealltwriaeth	✓	✓	✓	✓	x
<b>B3.3</b>	<u>Rheoli Llifogydd yn Naturiol</u> Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau rheoli llifogydd yn naturiol i gynyddu bioamrywiaeth yn unol â chanllawiau ac arbenigedd yr Awdurdod Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Dŵr Cymru. Delio ag achosion o lifogydd ynysig trwy ddefnyddio atebion peirianyddol nad ydynt yn rhai caled.	Wedi'i gynllunio	Cynllunio Cyfalaf, Strategol a Gweithredol / Tiroedd a Gerddi	Cyflawni datrysiadau peirianeg feddal, yn amodol ar gyllid.	3. <b>Cynnyddu cydnerthedd</b> 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol	✓	x	✓	✓	x

## Amcan 4 NRAP: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Cod y prosiect	Mesur	Statws	ARWEINYDD	Canlyniadau a Cherrig Milltir	AMCAN ALLWEDDOL Amcanion NRAP	Egwyddor Datblygu Cynaliadwy				
						Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cymryd rhan
B4.1	<u>Gweithredu Targedau Ynni BIPCTM</u> Gweithredu cynlluniau effeithlonrwydd ynni i gwrdd â thargedau ynni'r sefydliad yn unol â Strategaeth a Thargedau Datgarboneiddio CTM.	Wedi dechrau	Tîm Ynni	Parhau i weithredu cynlluniau effeithlonrwydd ynni i gwrdd â thargedau ynni'r sefydliad.	3. Cynyddu cydnerthedd 4. <b>Mynd i'r afael â phwysau allweddol</b> 5. Gwella dealltwriaeth 6. Fframwaith cyflawni	✓	✓	✓	✓	✓
B4.2	<u>Gweithredu Targedau Dŵr BIPCTM</u> Gweithredu cynlluniau effeithlonrwydd dŵr i gwrdd â thargedau dŵr y sefydliad yn unol â Strategaeth a Thargedau Datgarboneiddio CTM.	Wedi dechrau	Tîm Ynni	Parhau i weithredu cynlluniau effeithlonrwydd dŵr i gwrdd â thargedau dŵr y sefydliad.	3. Cynyddu cydnerthedd 4. <b>Mynd i'r afael â phwysau allweddol</b> 5. Gwella dealltwriaeth 6. Fframwaith cyflawni	✓	✓	✓	✓	✓
B4.3	<u>Defnydd plaladdwyr ar safleoedd BIPCTM</u> Anelu at leihau'r defnydd o blaladdwyr ar draws safleoedd BIPCTM	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi	Erbyn diwedd BI 3 – holl safleoedd BIPCTM i fod yn rhydd o blaladdwyr* * Gyda'r eithriadau canlynol Heb gynnwys: Trin rhywogaethau ymledol anffrodorol (e.e. JKW) lle nad oes dulliau eraill o drin ar gael neu nad ydynt yn effeithiol.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau 3. Cynyddu cydnerthedd 4. <b>Mynd i'r afael â phwysau allweddol</b>	✓	✓	✓	✓	x
B4.4	<u>Deunyddiau gwyrdd lleol.</u> Defnyddir cynhyrchion gwyrdd sy'n deillio o waith rheoli/cynnal a chadw cynefinoedd lleol (sglodion coed o'r fath sy'n cael eu creu o ganghennau wedi'u torri o waith tocio coed ac ati) ledled safleoedd BIPCTM neu gan sefydliadau lleol eraill.	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi	Bob blwyddyn: Sicrhau bod yr holl sgil-gynhyrchion ar gael yn gyntaf i'w defnyddio ledled safleoedd BIPCTM. Mae hyn eisoes yn ei le fel rhan o ddyletswyddau cynnal a chadw safle Tiroedd a Gerddi.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau 4. <b>Mynd i'r afael â phwysau allweddol</b> 5. Gwella dealltwriaeth	✓	✓	✓	✓	✓

### Amcan 5 NRAP: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

Cod y prosiect	Mesur	Statws	ARWEINYDD	Canlyniadau a Cherrig Milltir	AMCAN ALLWEDDOL Amcanion NRAP	Egwyddor Datblygu Cynaliadwy				
						Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cymryd rhan
B5.1	Nodi pwysau allweddol Adolygu adroddiadau SoNaRR diweddaraf gyda datganiadau ardal pan fyddant ar gael i nodi'r pwysau allweddol sy'n wynebu safleoedd BIPCTM. Defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrannu at fersiynau diwygiedig o'r Blaengynllun Bioamrywiaeth.	Wedi'i gynllunio	Tîm Cydymffurfiaeth	Blynyddoedd 1 a 2 – casglu tystiolaeth a data Blwyddyn 2/3 ysgrifennu adroddiad Blwyddyn 3 yn cyflwyno canfyddiadau	5. Gwella dealltwriaeth	✓	✓	✓	✓	✓
B5.2	<u>Llunio Cynlluniau Tir ar gyfer safleoedd BIPCTM</u> l'w gwneud yn haws nodi'r mathau o dir a defnyddiau ar bob safle.	Wedi dechrau	Tiroedd a Gerddi, Cynllunio Gweithredol	Cwblhau'r Portffolio fel rhan o'r Blaengynllun Bioamrywiaeth erbyn diwedd blwyddyn 3.	5. Gwella dealltwriaeth	✓	✓	✓	✓	✓

### Amcan 6 NRAP: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Cod y prosiect	Mesur	Statws	ARWEINYDD	Canlyniadau a Cherrig Milltir	AMCAN ALLWEDDOL Amcanion NRAP	Egwyddor Datblygu Cynaliadwy				
						Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cymryd rhan
B6.1	<u>Ystyried prosiectau bioamrywiaeth y cyngor</u> Datblygu system i sicrhau bod holl brosiectau bioamrywiaeth ac ecosystem y cyngor yn cael eu hystyried ym mhrosiectau BIPCTM er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried	Wedi'i gynllunio	Tiroedd a Gerddi	Prosiectau BIPCTM i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried ar y cychwyn ac yn cyd-fynd â chynlluniau cynghorau lleol. Ar gyfer	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau	✓	✓	✓	✓	x

	ar y cychwyn.			unrhyw brosiect BIPCTM newydd a fyddai'n effeithio ar y cyhoedd, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghoriad â'r cyngor a'r gymuned ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.	allweddol 5. Gwella dealltwriaeth 6. <b>Cyflwyno fframwaith</b>					
<b>B6.2</b>	<u>Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried ar bob Prosiect Gwella</u> Datblygu a gweithredu rhestr wirio ar gyfer prosiectau gwella i nodi risgiau a chyfleoedd gwella bioamrywiaeth ar bob prosiect.	Wedi'i gynllunio	Cynllunio Cyfalaf, Strategol a Gweithredol / Tiroedd a Gerddi	Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried ar bob prosiect gwella.  *Sylwer y bydd prosiectau cynnal a chadw yn cael eu heithrio	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 5. Gwella dealltwriaeth 6. <b>Cyflwyno fframwaith</b>	✓	✓	✓	✓	x
<b>B6.3</b>	<u>Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnwys yn Strategaeth y Bwrdd Iechyd.</u>	Wedi'i gynllunio	Gweithrediaeth y Bwrdd Iechyd	Cynnwys bioamrywiaeth yn Strategaeth CTM2030 y Bwrdd Iechyd 'Ein hiechyd, ein dyfodol' a nodau 'Cynnal ein Dyfodol' a 'Dod yn sefydliad gwyrdd' sy'n cyd-fynd â hi.	1. Gwreiddio bioamrywiaeth 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau 3. Cynyddu cydnerthedd 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol 6. <b>Cyflwyno fframwaith</b>	✓	✓	✓	✓	✓

# Cyfeiriadau

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016 2020 \(SoNaRR2020\)](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cydnerthedd Ecosystemau yn Gryno 1: Beth yw cydnerthedd ecosystemau? (2020)

NHS England (2020) 'Delivering a 'Net Zero' National Health Service'. Ar gael yn:

<https://www.england.nhs.uk/greenernhs/wp-content/uploads/sites/51/2020/10/delivering-a-net-zero-national-health-service.pdf>

Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), GIG Cymru a'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth, (2020)

Llywodraeth Cymru, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 6 ac Adran 7

Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21 (2020)

Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015